**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich Cyf/Your Ref: P-06-1400
Ein cyf/Our ref: JMHSC/11074/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

Deisebau@senedd.cymru

08 Ionawr 2025

Annwyl Carolyn,

**Deiseb P-06-1400 Adnoddau Teg a Digonol ar gyfer Practisau Cyffredinol yng Nghymru**

Diolch ichi am eich llythyr ynglŷn â'r ddeiseb uchod.

Rwy'n nodi gwaith y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas â'r ddeiseb hon, a'r gwaith y bydd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd yn ei wneud yn y dyfodol. Rwyf i, a'm swyddogion, wedi darllen yn ofalus y pwyntiau a godwyd yn yr ohebiaeth a ddaeth i law oddi wrth BMA Cymru Wales, yr ydych yn cyfeirio atynt yn eich llythyr.

Rwyf wedi ymrwymo i weithio gyda'r proffesiwn meddygon teulu i sicrhau'r canlyniadau buddsoddi gorau posibl i bractisau a'u staff. Mae fy swyddogion yn cymryd rhan mewn trafodaethau teirochrog blynyddol gyda GIG Cymru a Phwyllgor Meddygon Teulu (GPC Cymru) BMA Cymru Wales. Mae'r broses negodi deirochrog yn seiliedig ar egwyddorion partneriaeth gymdeithasol, a hyd yn hyn mae wedi ein galluogi i gynnal trafodaethau buddiol. Mae'r broses negodi hon yn parhau.

Yn fy ymateb i ddadl y Senedd ar y ddeiseb hon ar 6 Tachwedd, nodais y bydd unioni'r anghydbwysedd cyllido sy'n bodoli rhwng gofal eilaidd a gofal sylfaenol yn flaenoriaeth wrth wneud penderfyniadau cyllido yn y dyfodol, a bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r egwyddor o ddarparu mwy o ofal yn nes at adref.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda chynrychiolwyr meddygon teulu ar sut y gallwn helpu i gryfhau cynaliadwyedd gwasanaethau meddygol cyffredinol ymhellach, yn ogystal â defnyddio dull gweithredu ataliol i ddarparu gofal sy'n cadw pobl yn iach ac allan o'r ysbyty.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care